Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2019 yn Neuadd Gynhadledd, Canolfan Busnes Conwy, Cyffordd Llandudno

Yn bresennol:	**Yn cynrychioli:**
Mr Ffrancon Williams	Cymdeithasau Tai (Cadeirydd)
Mr Gwilym Ellis Evans	Mantell Gwynedd (Is-Gadeirydd)
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, BIPBC - Gweithredwr Arweiniol
Mrs Sally Baxter	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Iechyd, BIPBC
Mrs Mair Davies	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Mrs Fran Hughes	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
Mrs Sian Purcell	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn
Yr Athro Robert Moore	Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Mr Garth Higginbotham	NWCHC
Mrs Katie Sargent	Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfathrebu, BIPBC
Y Cyng Mike Parry	Un Llais Cymru
Mr Trystan Pritchard	Hosbisau Gogledd Cymru
Mrs Sherry Weedall	AVOW Wrecsam
Yn bresennol:	
Mrs Lesley Singleton	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu *(rhan o'r cyfarfod)*
Mr Steve Forsyth	Cyfarwyddwr Nyrsio a Gweithredoedd, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu *(rhan o'r cyfarfod)*
Mr Alberto Salmoiraghi	Seiciatrydd Ymgynghorol / Cyfarwyddwr Meddygol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu *(rhan o'r cyfarfod)*
Mrs Joanna Garrigan	Prif Swyddog Cyllid, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu *(rhan o'r cyfarfod)*
Mrs Sally Thomas	Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol *(rhan o'r cyfarfod)*
Mr Mike Townson	Uwch Reolwr Cydraddoldeb *(rhan o'r cyfarfod)*
Ms Suzanne Didcote	Ysgrifenyddiaeth y GCRh

Eitem ar yr Agenda		**Camau Gweithredu**
S19/33	**Croeso ac Ymddiheuriadau**	
S19/33.1	Croesawodd y Cadeirydd Trystan Pritchard i'w gyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd Hosbisau Gogledd Cymru. Croesawyd y Cyng Mike Parry i'w gyfarfod cyntaf fel y cynrychiolydd newydd ar gyfer Un Llais Cymru. Croesawyd Sherry Weedall fel y cynrychiolydd ar gyfer AVOW Wrecsam.	
S19/33.2	<u>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau canlynol</u>: Y Cyng Penny Andow, Cyngor Sir Conwy Y Cyng Joan Lowe, Cyngor Sir Wrecsam Mrs Fiona Evans, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy Y Cyng Dafydd Meurig, Cyngor Gwynedd Y Cyng Gladys Healey, Cyngor Sir y Fflint Y Cyng Christine Marston, Cyngor Sir Ddinbych	

	Mrs Ann Woods, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint	
S19/33.3	Nododd y Cadeirydd ddiffyg presenoldeb parhaus yr Awdurdodau Lleol a chytunwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd ysgrifennu at yr Awdurdodau Lleol yn gofyn iddynt flaenoriaethu presenoldeb yn y GCRh.	**FFW**
S19/33.4	<u>Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar Aelodaeth:</u> Cadarnhawyd mai'r Athro Robert Moore fydd yn parhau i gynrychioli NWREN. Mae Sian Purcell wedi'i chadarnhau fel yr un sy'n parhau i gynrychioli Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn.	
S19/33.5	<u>Swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd:</u> Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad bod y Bwrdd Iechyd wedi ymestyn swydd Ffrancon Williams fel Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid am 12 mis arall. Ceisiwyd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd, ond gan na dderbyniwyd yr un, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cadarnhau mai Gwilym Ellis Evans fydd yn y swydd hon am 12 mis arall. Bydd y cyfnodau hyn yn dod i ben ym mis Mehefin 2020.	
S19/34	**Datganiadau Diddordeb**	
S19/34.1	Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb	
S19/35	**Diweddariad Iechyd Meddwl**	
S19/35.1	Cyflwynodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr o'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu; Mrs Lesley Singleton, Cyfarwyddwr Partneriaethau; Mr Steve Forsyth, Cyfarwyddwr Nyrsio a Gweithredoedd; Mr Alberto Salmoiraghi, Seiciatrydd Ymgynghorol / Cyfarwyddwr Meddygol a Mrs Joanna Garrigan, Prif Swyddog Cyllid. Mae'r gwasanaeth hwn mewn Mesurau Arbennig ac mae llawer o waith parhaus wedi bod o ran ymateb i hyn. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at orwariant ar gyfer y Bwrdd Iechyd.	
S19/35.2	Rhoddwyd cyflwyniad i'r Grŵp. Roedd hwn yn pwysleisio bod y Gwasanaeth Iechyd Meddwl wedi datblygu Strategaeth fel rhan o'r ymateb i'r Mesurau Arbennig. Mae Partneriaid wedi cofrestru ar gyfer y strategaeth. Mae'n canolbwyntio ar ddiagnosis ac anghenion cleifion:- gwnaethpwyd lawer o waith ar edrych ar daith y claf. Mae model newydd o ofal yn cael ei ddatblygu sydd wedi'i seilio ar Ofal Cychwynnol / Canolfan Gofal Cymuned / Darpariaeth ar sail Gwelyau. Mae hyn yn gysylltiedig â'r llwybr MI FEDRAF sy'n ddewis arall i wasanaethau statudol. Mae hyn wedi'i brofi gyda Gofal heb ei Drefnu ac mae wedi derbyn llawer o ganmoliaeth gan Ddefnyddwyr y Gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn creu blaenoriaethau, edrych ar yr hyn a ellir ei wneud yn wahanol, mesur llwyddiant a chyllid. Gwnaethpwyd llawer o waith o ran symud diwylliant hyder staff Iechyd Meddwl yn dilyn y digwyddiadau Tawel Fan a chael eu rhoi mewn Mesurau	

S19/35.3	Arbennig. Rhoddir pwyslais ar werthuso amser staff ac amser cleifion gyda'u hanwyliaid. Mae cynigion am fuddsoddiad ychwanegol mewn Ymarferwyr Gofal Cychwynnol, Ymyrraeth mewn Argyfwng ac Adsefydlu.	
S19/35.4	Mae cyllideb Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn atebol am 10% o Wariant cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Mae'r gorwariant wedi lleihau a rhagwelir y bydd yr Uwch Adran yn adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn cymharu'n ffafriol gyda gorwariant o £10M dwy flynedd yn ôl. Un o'r meysydd gwariant mawr yw lleoliadau y tu allan i ardal. Mae arbedion wedi bod drwy adolygu'r pecynnau gofal a sicrhau bod lleoliadau yn briodol. Mae nifer y lleoliadau y tu allan i ardal wedi lleihau yn sylweddol o ganlyniad i'r adolygiadau a gynhaliwyd.	
S19/35.5	Cododd Fran Hughes ymholiad o ran priodoledd y cyfeiriadau a wnaed i'r Gwasanaeth. Cadarnhawyd bod rhai cyfeiriadau amhriodol yn cael eu gwneud.	
S19/35.6	Gofynnodd Sian Purcell beth oedd yr ymateb gan Feddygon Teulu i'r newidiadau i'r llwybrau cyfeirio. Cadarnhaodd Lesley Singleton bod rhaglenni peilot gwahanol yn cael eu cynnal mewn ardaloedd gwahanol gan nad yw'r hyn sy'n gweithio mewn un ardal bob amser yn gweithio mewn ardal arall. Roedd cynllun ar waith gydag un o'r Meddygfeydd ym Mae Colwyn, gyda Chlinigwyr yn gweithio ochr yn ochr â Meddygon Teulu a arweiniodd at ostyngiad o 68% mewn cyfeiriadau. Ar draws Gogledd Cymru, mae o leiaf un gwasanaeth Meddyg Teulu ym mhob ardal ar y Llwybr MI FEDRAF.	
S19/35.7	Gofynnodd y Cyng Mike Parry sut mae cleifion sy'n cael eu herio gan y ddesg flaen am ba mor frys yw eu hachos, ac sy'n cael gwybod bod angen iddynt aros, yn cael eu cadw. . Eglurwyd bod gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda chanolfannau galw heibio, lle mae ymarferwyr ar gael sy'n helpu pobl sy'n cael eu cyfeirio yn ddiangen. Mae llinell gymorth galwadau ar gael hefyd.	
S19/35.8	Cododd yr Is-gadeirydd y broblem o ran y diffyg Meddygon Ymgynghorol ym Mangor. Mae lefel swyddi gwag wedi bod yno yn hanesyddol, a nodwyd bod hyn, yn anffodus, yn unol â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae mater hefyd gyda dosbarthiad anwastad Meddygon Ymgynghorol ar draws Gogledd Cymru. Defnyddir Nyrsys Clinigol neu Fferyllwyr yn fwy eang i sicrhau effeithlonrwydd amser y Meddygon Ymgynghorol.	
S19/35.9	Cododd yr Is-gadeirydd y broblem o ran y costau sy'n gysylltiedig â charchariadau'r heddlu, gan fod adroddiad newyddion diweddar wedi nodi costau uchel yn Nyfed-Powys. Mae hyn yn uchel ar gyfer Gogledd Cymru, ond mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda hwy ac mae cynlluniau i gael Ymarferwyr Iechyd Meddwl mewn ystafelloedd rheoli'r heddlu. Mae cynllun i roi hyn ar waith gyda Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru hefyd.	

	Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb bod y gwaith ar y dull llwybr yn galonogol gyda rhagamcanion cynilion i adennill costau. Mae'n galonogol i glywed am effeithlonrwydd y broses cyfeirio a'r Ganolfan Gofal Cymuned. Cafodd ei annog i glywed am ddefnydd Ymarferwyr Iechyd Meddwl sy'n gweithio gyda'r Heddlu.	
S19/36	**Y Diweddaraf ar Strategaeth Gwasanaeth**	
S19/36.1	Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth Iechyd gyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu ein Strategaeth Gwasanaethau Clinigol. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed ar gyfer Byw'n Iach, Aros yn Iach a gafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd yn 2018. Mae'n ofynnol dan Lywodraeth Cymru bod gennym Strategaeth Gwasanaethau Clinigol fel rhan o'n proses cynllunio 3 blynedd. Bydd y rhoi cyfeiriad a ffocws clir i'r Bwrdd Iechyd. Mae gwaith i ddatblygu'r Strategaeth ar waith gyda defnyddwyr y gwasanaeth, grwpiau a gofalwyr. Mae tueddiadau poblogaeth a disgwyliad oes yn cael eu hystyried. Mae hyn yn cyflawni nod pedwarplyg Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach". Mae ymgysylltiad gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod a gwnaed cynigion llwyddiannus ar gyfer cyllidebau trawsffurfio. Mae datblygiadau cyfredol yn digwydd mewn canolfannau dwys, h.y. gofal cardiaidd; fasgwlar. Mae hyn yn helpu gyda recriwtio ac yn cael ei gefnogi'n well. Mae dull gwerth gwell yn cael ei fabwysiadu i edrych ar wella gwerth ar gyfer y boblogaeth ac ar draws y llwybr cyfan, i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn effeithlon a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar bethau sydd o bwys i gleifion. Cydnabuwyd mynediad ac amseroedd teithio o fewn y gwaith hwn. Mae Cynllun Clinigol Cenedlaethol Cymru Gyfan wedi'i ddatblygu, y bydd y gwaith hwn yn cysylltu ag ef, a dynodwyd blaenoriaethau i'w trafod. Bydd y gwaith yn mynd i'r afael â chynaladwyedd ariannol i gyfrannu at y	
S19/36.2	cynllun adfer. Nodwyd bod cynaliadwyedd gweithlu yn broblem. Mae gwaith cyfredol ar waith i ymgysylltu â'r Fforymau Perthnasol, cyn bod ymgysylltiad y cyhoedd yn digwydd. Cododd Garth Higginbotham ymholiad o ran gwaith Ailddatblygu Maelor Wrecsam a p'un ai y bydd yn syniad gwell i'w ail-adeiladu'n gyfan gwbl. Mewn ymateb, eglurwyd y bydd cynnig yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru am gyllid ar ffurf achos busnes a fydd yn cynnwys nifer o ddewisiadau, un a fydd yn cynnwys ail-	
S19/36.3	adeiladu yn gyfan gwbl. Bydd y cynigion hyn yn cystadlu yn erbyn Byrddau Iechyd eraill am yr arian sydd ar gael. Yn y tymor byr, eglurwyd bod pwyslais uniongyrchol ar y bygythiadau risg uchel i ddarparu gwasanaethau clinigol. Ailadroddodd Trystan Pritchard yr angen i fynd i'r afael ag amseroedd mynediad a phwysigrwydd ymgysylltiad y cyhoedd o ran y newidiadau i brif wasanaethau. Edrychir ar dystiolaeth i	
S19/36.4	gyfnerthu gwasanaeth a gwella canlyniadau. Mae hyn yn rhan o'r dull llwybr. Bydd yn mynd i'r afael ar le nad oes angen pwysleisio a chydbwyso gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru. Gall materion gweithlu hefyd fod yn her a gall hyn lywio rhai mesurau o ran canoli gwasanaethau penodol.	

S19/36.5 S19/36.6 S19/36.7	Cododd y Cyng Mike Parry y mater o ran amseroedd ambiwlansys i gyrraedd cleifion, ar ben yr amser teithio yn enwedig mewn ardaloedd pellach a gwledig. Bydd canlyniadau anffafriol dilynol posibl os nad yw pobl yn cyrraedd yr ysbyty yn ddigon cyflym a chostau adsefydlu pellach posibl. Bydd datblygu'r strategaeth yn ystyried y cysylltiadau angenrheidiol gyda/a perfformiad gofynnol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Ailadroddodd Sian Purcell bod cludiant ac amseroedd teithio yn faes pryder mawr. Mae angen cydbwyso anghenion pobl mewn ardaloedd lle mae'r mynediad yn bell sydd â nifer cyfyngedig o ddefnydd, yn erbyn anghenion poblogaeth ehangach. Dywedodd yr Athro Robert Moore bod cludiant ac amseroedd teithio yn fater Cymru gyfan. Rhoddodd wybod i'r Grŵp bod yr EHRC (Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb) yn pwysleisio hyn. I grynhoi, pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd ymgysylltiad y cyhoedd a fydd ei angen o ran y newidiadau i wasanaethau. Mae angen ystyried cysylltiadau cludiant at fynediad at wasanaethau a pherfformiad WAST (Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ac mae angen i'r mater cyfan gael ei flaenoriaethu mewn rhyw ffordd.	
S19/37 S19/37.1

	Gofynnodd Trystan Pritchard lle mae ein heriau mwyaf. Cadarnhawyd mai tlodi, anghydraddoldeb a phobl hŷn difreintiedig oedd ein prif faterion. Dyma ein trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae gennym rwydweithiau cadarn i yrru hwn ymlaen. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Lleol a Heddlu Gogledd Cymru.	
S19/38 S19/38.1 S19/38.2 S19/38.3 S19/38.4	**Strategaeth Trydydd Sector** Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth Iechyd ddiweddariad ar lafar o ran Strategaeth y Trydydd Sector. Rhoddwyd crynodeb o'r adborth ymgysylltu i'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth a Phoblogaeth ar 3 Medi, a fydd yn cael ei rannu gydag aelodau o'r Grŵp. Y themâu yw cyfathrebu, ymddiriedolaeth, cydnabyddiaeth, amser a chyfoeth profiad. Mae gweithredoedd ac egwyddorion diwygiedig i wella meysydd yn cael eu datblygu. Gofynnodd Sian Purcell os bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei ddosbarthu maes o law. Cododd yr Is-gadeirydd ymholiad o ran datganoli cyllidebau'r trydydd sector. Cadarnhawyd bod y tîm Gweithredol wedi cymeradwyo cyllidebau datganoledig ar gyfer y Timau Ardal a Thimau Iechyd Meddwl lle gellir gwneud penderfyniadau yn lleol. Nododd Sally Baxter y byddai fforwm yn cael ei sefydlu dros y flwyddyn nesaf. Byddai hyn yn dilyn dull comisiynu strategol a byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud yn lleol gyda chydlyniad strategol angenrheidiol.	**Sally Baxter** **Sally Baxter**
S19.39 S19/39.1	**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - diweddariad** Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth Iechyd ddiweddariad llafar yn ymwneud â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd hyn ei gynnwys fel rhan yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd eleni. Mae gwaith yn parhau gyda Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol a Swyddfa Archwilio Cymru, gydag asesiadau yn cael eu gwneud. Derbyniwyd adroddiadau drafft ac maent yn cael eu gweithio arnynt. Mae adborth positif, a dynodwyd rhai meysydd i'w datblygu ymhellach, sef cynaliadwyedd amgylcheddol.	
S19/40 S19/40.1	**Nodiadau drafft o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2019** Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.	
S19/41 S19/41.1 S19/41.2	**Adroddiad Ymgynghorol y Cadeirydd i'r Bwrdd** Cafodd ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf a chaiff ei gylchredeg ymysg aelodau'r GCRh er gwybodaeth.	

	Gofynnodd y Cyng Parry p'un ai y gellir ei rannu gydag aelodau o flaen llaw cyn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Eglurodd y Cadeirydd oherwydd yr amserlen dynn i gyflwyno'r rhain, ni fyddai'n bosibl.	
S19/42	**Cofnod Cryno o Weithredoedd** Gwnaeth y Grŵp nodi'r diweddariadau a oedd wedi'u darparu.	
S19/43 S19/43.1	**Eitemau i'w hystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf a Blaengynllun** Cytunwyd ar yr eitemau canlynol ar gyfer y cyfarfod nesaf: • Rhagnodi Cymdeithasol a Chanolfannau Iechyd a Lles • Diweddariad o'r Cynllun Tair Blynedd (o'r Cylch Busnes) • Diweddariadau Gofal Cychwynnol (o'r Cylch Busnes)- Chris Stockport i fod yn bresennol Gyda'r eitemau canlynol tuag yn ôl: • Unrhyw Achosion Busnes (o'r Cylch Busnes) • Diweddariad Strategaeth y Gweithlu	
S19/44 S19/44.1	**Gwerthusiad o'r Cyfarfod** Gofynnodd y Cadeirydd i'r Grŵp am adborth ar y cyfarfod. Roedd yr unig sylw a godwyd yn ymwneud ag ansawdd gweledol rhai o'r cyflwyniadau, a chytunwyd y byddwn yn tynnu sylw ato ar gyfer cyflwyniadau'r dyfodol.	**Suzanne Didcote**
S19/45	**Er gwybodaeth - Eitemau a ddosbarthwyd rhwng cyfarfodydd** • Adroddiad Blynyddol HMP Berwyn - wedi e-bostio ar 18/6 • Cyflwyniad Strategaeth Trydydd Sector - wedi e-bostio ar 18/6 • Strategaeth Gweithlu - wedi e-bostio ar 5/7 • Canlyniadau'r Arolwg Ymgysylltu - wedi e-bostio ar 1/8	
S19/46	**Eitemau sydd wedi'u cylchredeg ymysg aelodau er gwybodaeth** • Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd • Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb • Cyflwyniad Diweddariad Ariannol	
S19/47	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Dydd Mawrth 17 Rhagfyr 2019 am 10:00, Neuadd Gynadledda, Canolfan Busnes Conwy, Cyffordd Llandudno LL31 9XX	
S19/48	**Unrhyw Fater Arall**	

S19/48.1	Mae'r Cyng Mike Parry wedi codi ymholiad o ran y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol a p'un ai bod BIPBC wedi derbyn y cynnig i dynnu 35 cyflwr o'i fformiwlari. Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio a Perfformiad yn rhoi ymateb i'r ymholiad hwn.	**MW**
S19/48.2	Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw Aelodau'r Pwyllgor at holiadur a ddatblygwyd gan y Cydweithrediad Colli Clyw gan annog iddynt ei gwblhau. Cytunodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strategaeth Iechyd i ddod o hyd i'r ddolen ar gyfer yr arolwg electronig hwn a'i gylchredeg i aelodau.	**SB**
S19/48.3	Cododd y Cyng Marston o Gyngor Sir Dinbych ymholiad (drwy e-bost) yn ymwneud â'r posibilrwydd o dynnu'r gwasanaeth lensys cyffwrdd i gleifion ag anghenion cymhleth. Rydym yn chwilio am ymateb i hwn drwy'r Cyfarwyddwr Ardal sy'n gyfrifol.	**SD**

Cofrestr Bresenoldeb:

Enw	**Teitl / Sefydliad**	4/6/19	10/9/19	17/12/19	3/3/20
Mr Ffrancon Williams	Cymdeithasau Tai (Cadeirydd)	√	√		
Mr Gwilym Ellis Evans	Mantell Gwynedd (Is-Gadeirydd)	√	√		
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, BIPBC - Gweithredwr Arweiniol	√	√		
Y Cyng Penny Andow	Cyngor Sir Conwy	x	x		
Mrs Fiona Evans	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	x	x		
Y Cyng Llinos Medi Huws	Cyngor Ynys Môn	x	x		
Y Cyng Christine Jones	Cyngor Sir y Fflint	x	x		
Mr Andy Long	WAST - Rheolwr Ardal y Gogledd	x	x		
Y Cyng. Joan Lowe	Cyngor Sir Wrecsam	x	x		
Y Cyng. Christine Marston	Cyngor Sir Ddinbych	x	x		
Y Cyng. Dafydd Meurig	Cyngor Gwynedd	x	x		
Yr Athro Robert Moore	Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru	x	√		
Y Cyng Mike Parry	Un Llais Cymru	x	√		
Mrs Sian Purcell	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Medrwn Môn	x	√		
Helen Wilkinson	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	x	x		

Mrs Ann Woods	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint	x	x		
Ms Claire Sullivan	NEWCIS	x	x		
Mrs G Winter	Ymddiriedolaeth Gofalwyr	x	x		
Mrs Sally Baxter	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Iechyd, BIPBC	√	√		
Mrs Julie Pierce	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	√	√ Mynychodd Mair Davies		
Mrs Fran Hughes	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint	√	√		
Ms Llinos M Roberts	Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr, Ardal Gorllewin BIPBC	√	x		
Mrs Mary Wimbury	Fforwm Gofal Cymru	√	x		
Mr Mark Thornton	Cadeirydd NWCHC	√	√ Mynychodd G Higginbotham		
Mrs Katie Sargent	Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Cyfathrebu, BIPBC	√	√		
Mr Trystan Pritchard	Cynrychiolydd Hosbisau Gogledd Cymru		√		
Mrs Sherry Weedall	AVOW		√		